Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016

9.30 - 1.10

Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Andrew Green (Cadeirydd) William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Fflur Elin, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Sylwedyddion:	Ifan James, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd ac yn arbennig i William Callaway fel aelod newydd o'r Bwrdd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. 1.3 Adroddwyd bod yr Athro Jacqui Hare wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Bwrdd ar ei hymddeoliad o Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Byddai'r Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, yn ysgrifennu i ddiolch iddi'n ffurfiol am ei chyfraniad ar hyd ei thymor gwasanaeth.	Cadeirydd i ysgrifennu at JH	Tachwedd 2016
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfodydd 22 Mehefin a 15 Medi 2016	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 22 Mehefin a 15 Medi 2016.		
4. Gohebiaeth	4.1 Derbyniwyd llythyr gan weddw'r Athro Gwyn Thomas, Cymrawd y Coleg, yn cytuno i'r Coleg sefydlu Gwobr Goffa er cof amdano. Cyflwynir y wobr am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, 2017. Croesawyd sefydlu'r wobr gan y Bwrdd.		
5. Materion y Cadeirydd	5.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd. Nododd bod adroddiad y Prif Weithredwr (eitem 9) yn egluro sefyllfa bresennol y Coleg yn llawn. Adroddodd bod rhagolygon y Coleg yn addawol gyda chyllideb fwy sefydlog i'r blynyddoedd i ddod. Adroddodd ar		

	sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen dan gadeiryddiaeth Delyth Evans, sydd yn edrych ar rôl y Coleg a chyfleoedd posib i ehangu'r rôl honno.		
6. Materion Cyllid **(Eitem 11)**	6.1 Cyflwynwyd Cyfrifon Archwiliedig y Coleg ar gyfer 2015/16 gan y Cofrestrydd. 6.2 Adroddwyd bod lefel y cronfeydd wrth gefn ar 31 Gorffennaf 2016 yn gyson â'r cytundeb a wnaed gyda'r Cyngor Cyllido i wario cyfran o grant 2015/16 yn ystod 2016/17, er mwyn lliniaru effaith y cwymp sylweddol yng ngrant y Coleg gan y Cyngor Cyllido ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol. Adroddwyd ymhellach y byddai'r ymarfer i gaffael gwasanaethau bancio newydd sydd ar y gweill yn arwain at ymagwedd mwy rhagweithiol tuag at fuddsoddi arian wrth gefn. 6.3 Adroddwyd yn ogystal bod yr Archwilwyr Allanol wedi datgan archwiliad glân a bod y man faterion a godwyd llynedd wedi eu datrys. Yn sgil trafodaeth ar y cyfrifon canmolwyd y swyddogion am y gwaith a gyflawnwyd ganddynt i sicrhau cronfeydd iach a chyllideb sefydlog i'r Coleg yn y dyfodol. 6.4 Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a chytunwyd i'w cyflwyno i gyfarfod Llys y Coleg ar 8 Mawrth 2017.		
7. Pwyllgor Archwilio a Risg **(Eitemau 12a a 12b)**	7.1 Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg, a gynhaliwyd ar 18 Hydref a 16 Tachwedd 2016, a chafwyd adroddiad ar y cyfarfodydd gan y Cadeirydd, Geraint James. Nodwyd bod archwiliad mewnol ar ganghennau'r Coleg wedi'i gwblhau a chwblheir archwiliad cyllid cyn diwedd y flwyddyn. Mae amserlen waith newydd yr archwilwyr ar y gweill.		
8. Materion cyfansoddiadol	8.1 Cyflwynwyd papur ar sefydlu is-gwmni i'r Coleg gan yr Ysgrifennydd ar ran yr Athro Iwan Davies.		

(Eitem 6)	8.2 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd yr egwyddor o sefydlu is-gwmni i'r Coleg a fyddai'n gallu cyrchu ffynonellau cyllid amrywiol. Bydd yr Ysgrifennydd yn dechrau ar y gwaith o weithredu hyn yn ystod 2017 gyda chyngor proffesiynol a chyflwynir argymhellion pellach i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr maes o law yn gosod allan y costau, yr adnoddau angenrheidiol a'r amgylchiadau lle byddai angen eglurder ar y ffin rhwng gwaith yr is-gwmni a gwaith y prif gorff. Nodwyd y byddai amcanion yr is-gwmni yn gyson ag amcanion y Coleg fel corff, ac y byddai angen cyfrifon ar wahân. 8.3 Cyflwynwyd y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol (Llys a'r Cynulliad Blynyddol). Fe'u cynhelir ar 8 Mawrth 2017 ar gampws y Bae ym Mhrifysgol Abertawe.	CR i gyflwyno papur pellach ar yr is-gwmni i'r Bwrdd	2017 – amodol ar ddatblygiadau eraill.
9. Pwyllgor Penodiadau	9.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ar y trefniadau i benodi Cadeirydd newydd y Coleg. Bydd cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mis Ionawr er mwyn derbyn a chymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau. Mae tymor Andrew Green yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth a bydd y Cadeirydd newydd yn dechrau ei swyddogaeth ar 1 Ebrill 2017. *Ar y pwynt hwn gadawodd William Callaway a Dr Hefin Jones y cyfarfod.* 9.2 Cymeradwywyd penodiad Dr Hefin Jones, a benodir o'r newydd yn gyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd, yn dilyn proses lawn o enwebu gan y staff a'i gyfweld gan y Pwyllgor Penodiadau. Bydd Dr Jones yn gwasanaethu am bedair blynedd arall a chyfeiriwyd at ei gyfraniad mawr tuag at fywyd y Coleg hyd yma. 9.3 Cymeradwywyd penodiad William Callaway, Ysgrifennydd Prifysgol De Cymru, fel cyfarwyddwr sector addysg uwch yn dilyn ymddeoliad Jacqui Hare.	Cyfarfod arbennig o'r Bwrdd	Ionawr 2017

	Ar y pwynt hwn ail-ymunodd William Callaway a Dr Hefin Jones y cyfarfod.		
10. Enwebiadau – Cymrodyr 2017 **CYFRINACHOL**	10.1 Cymeradwywyd gwahodd yr Athro Merfyn Jones, Dr Siân Wyn Siencyn a'r Athro Brynley F. Roberts i dderbyn Cymrodoriaeth adeg y Cynulliad Blynyddol yn Abertawe ar 8 Mawrth 2017. Pwysleisiwyd bod yr enwau'n parhau'n gyfrinachol tan y cyhoeddiad swyddogol.		
11. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 9)**	11.1 Derbyniwyd diweddariad ar waith y Coleg mewn adroddiad gan y Prif Weithredwr a nodwyd y materion canlynol: • Sefyllfa gyllidol 2017/18 - Adroddwyd bod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg a Sgiliau wedi cadarnhau bod cyllideb o £5.4 wedi ei ddynodi i'r Coleg. Cadarnhawyd y bydd y Coleg yn derbyn grant yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2017 yn hytrach na'r Cyngor Cyllido. Nododd Dr Cliona O'Neill er bod y trefniadau cyllido yn newid bydd y Cyngor Cyllido yn parhau i gydweithio â'r Coleg. Nodwyd gwerthfawrogiad aelodau'r Bwrdd i'r swyddogion am eu gwaith yn sicrhau dyfodol i'r Coleg. Bydd y gyllideb yn sicrhau y bydd parhad i nifer cyfyngedig o grantiau pynciol i gefnogi'r strategaeth newydd. • Grŵp Tasg a Gorffen - Adroddwyd ar ddatblygiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen o dan gadeiryddiaeth Delyth Evans, sy'n edrych ar rôl y Coleg a chyfleoedd posibl i ehangu'r rôl honno. Mae'r Grŵp yn cwrdd yng Nghaerdydd am y tro cyntaf ar 25 Tachwedd 2016 a derbyniwyd gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod. • Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Adroddwyd ar ddatblygiadau ym maes Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a'r trafodaethau sydd yn digwydd gyda swyddogion y Llywodraeth i ehangu ar waith y Coleg ar y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon. Ar 24 Tachwedd 2016 mae'r		

	swyddogion yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant yn y Senedd, sydd yn cynnal ymchwiliad i Strategaeth Iaith newydd Llywodraeth Cymru. • Canghennau – Adroddwyd bod yr Archwilwyr Mewnol wedi cynnal adolygiad o'r canghennau. Yn deillio o'r adroddiad argymhellir datblygu rôl y canghennau yn y dyfodol. Rhagwelir darperu papur i'r Bwrdd ym Mehefin 2017. • Canolfan Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Gwledig - Adroddwyd bod y Coleg wedi derbyn gwahoddiad i fod yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Cymraeg ac Iechyd. Bydd hyn yn gyfle i'r Coleg dynnu sylw at y Gymraeg ym maes iechyd. • Diweddariadau ar waith marchnata a chyfathrebu, gweithgareddau ym maes Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg, Rhaglenni Hyfforddiant Academaidd a *Gwerddon.*	Papur ar y canghennau i'r Bwrdd	21 Mehefin 2017
12. Materion Staffio	12.1 Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd ar faterion staffio. Adroddwyd bod Adam Jones, cyn sylwedydd myfyrwyr ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr a chyn gynrychiolydd myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd, wedi ei benodi i swydd cyfnod mamolaeth yn yr adran farchnata a chyfathrebu. 12.2 Nodwyd bod canlyniadau'r arolwg boddhad staff blynyddol wedi gwella a hynny mewn blwyddyn ansefydlog. Nodwyd y rhoddwyd diweddariadau cyson i'r staff ynghylch sefyllfa'r Coleg ar hyd y cyfnod diweddar.		
13. Y Gofrestr Risg **(Eitem 13)**	13.1 Cyflwynwyd adroddiad llafar ar y Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd. Nodwyd y cyflwynir y Gofrestr lawn i'r Bwrdd yn flynyddol. Adolygir y risgiau'n rheolaidd gan y swyddogion ac fe'u cyflwynir yn gyson i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. 13.2 Trafodwyd y risgiau ac ystyriwyd newid dau risg strategol sef: diffyg dilyniant o ysgolion uwchradd / colegau addysg bellach (11/04) i uchel; a diffyg sylw i'r Gymraeg wrth gynllunio'r TEF	DT i ddiweddaru	Ionawr 2017

	(15.02) – i ganolig; ac un risg gweithredol sef niferoedd bach ar rai cyrsiau gradd sydd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol gan y Coleg (13/07) i uchel. Cytunwyd i gylchredeg nodyn CCAUC ar y TEF i'r cyfarwyddwyr 13.3 Yn ystod y drafodaeth ar ddilyniant cyfeiriwyd at ddiffyg gwerslyfrau Cymraeg gan fod y gwerslyfrau cyffelyb yn Saesneg yn cael eu comisiynu gan weisg masnachol yn Lloegr. Yn ogystal cyfeiriwyd at gylch dyfarnu Pearson. Cytunwyd i drefnu gysylltu â Phrif Weithredwr CBAC i gyflwyno dymuniad y Bwrdd i liniaru'r broblem. 13.4 Cymeradwywyd y Gofrestr gyda'r newidiadau.	Cylchredeg nodyn CCAUC ar y TEF i'r cyfarwyddwyr IM i drefnu cyfarfod GP, CBAC	Ionawr 2017 Cyn diwedd 2016
14. Cynllun Academaidd newydd **(Eitem 14)**	14.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y camau a gymerwyd i baratoi Cynllun Academaidd newydd y Coleg a fydd yn gosod sail i fframwaith newydd ar gyfer cynllunio academaidd dros y pum mlynedd nesaf. 14.2 Nodwyd y bu trafodaethau ers blwyddyn gyda'r Bwrdd Academaidd, ymgynghoriad â'r prifysgolion a Grŵp Ymgynghorol y Coleg i drafod egwyddorion y cynllun. Yng nghyfarfod 13 Hydref 2016 o'r Bwrdd Academaidd trafodwyd y cynllun yn fanwl a chafwyd ymarferiad blaenoriaethu pynciau. Adroddodd y Cofrestrydd ar y canlyniadau. 14.3 Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth gynhwysfawr a nodwyd nifer o awgrymiadau pellach i'w hychwanegu at y cynllun newydd. 14.4 Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at anghenion swyddi i'r economi leol a chytunodd Linda Wyn a'r Ysgrifennydd drafod y mater ymhellach.	CR a LW i drafod meysydd blaenoriaethu	Cyn diwedd 2016

	14.5 Yn ogystal cytunwyd y dylai'r swyddogion a'r myfyrwyr trafod addysg gynhwysol ymhellach. 14.6 Cymeradwywyd y Cynllun newydd i'w gylchredeg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Academaidd gyda'r sylwadau.	DT a FfE i drafod addysg gynhwysol Cylchredeg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Academaidd	Cyn diwedd 2016 Cyn diwedd 2016
15. Fframwaith dyrannu grantiau pynciau **(Eitem 15)**	15.1 Cyflwynwyd papur gan Dr Dylan Phillips ar drefniadau dyrannu grantiau pynciol ar gyfer 2017/18. Nodwyd bod y swyddogion yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cynllunio gyda'r sefydliadau yn unigol ar hyn o bryd. 15.2 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y fframwaith ar gyfer dyrannu grantiau pynciol.		
16. Bwrdd Academaidd	16.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2016, ar y materion canlynol: • Treuliwyd rhan helaeth o'r cyfarfod yn trafod y Cynllun Academaidd newydd • Derbyniwyd papur yn diwygio proses ethol myfyrwyr i'r Bwrdd Academaidd • Derbyniwyd papur ar system ymaelodi myfyrwyr a darpar-fyfyrwyr i'r Coleg ac adroddir ar unrhyw ddatblygiadau maes o law. • Derbyniwyd adroddiadau ar Ehangu Mynediad ac Ymchwil a Chyhoeddi. • Cyfeiriwyd at gyfresu teledu *Doctoriaid Yfory* a *Her yr Hinsawdd* a ddarlledir ar S4C ac sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r Coleg ac i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. • Nododd y Deon ei fod wedi ymweld â Gŵyl Gelf ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac arddangosfa ar y cyd rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant.		

	• Nododd bod trefniadau taith y Deon ar waith ac y byddai'n ymweld â cholegau addysg bellach yn ogystal eleni. Diolchwyd i'r Deon ac i aelodau'r Bwrdd Academaidd am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.		
17. Materion yn codi	17.1 Nid oedd unrhyw eitemau yn codi o'r cofnodion.		
18. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr	18.1 Adroddodd yr Athro Jerry Hunter bod y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi'n cydweithio â'r Gymdeithas Ddysgedig i rannu data. Adroddwyd y cynhaliwyd darlith ar y cyd rhwng y Coleg a'r Gymdeithas ar 15 Tachwedd 2016. Traddodwyd y ddarlith ar William Salesbury gan yr Athro E Wyn James, Prifysgol Caerdydd.		
19. Unrhyw fusnes arall	19.1 Cafwyd argymhelliad i wneud cais i Lywodraeth Cymru i'r Coleg fod yn aelod o unrhyw banel neu gorff perthnasol a allai gael ei sefydlu mewn perthynas a'r Strategaeth Iaith. 19.2 Argymhellwyd y dylid codi ymwybyddiaeth o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith ymgynghorwyr gyrfaoedd. Nodwyd bod cyfarfod rhwng y Coleg â Gyrfaoedd Cymru ar y gweill.		
20. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	20.1 Nodwyd y byddai cyfarfod rhwydwaith fis Ionawr i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Penodiadau yn ogystal â'r cyfarfodydd isod: • Cyfarfod y Llys, 8 Mawrth 2017, Prifysgol Abertawe • 22 Mawrth 2017, Prifysgol Abertawe • 21 Mehefin 2017, Y Brifysgol Agored, Caerdydd		

	20.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Bangor am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.		